# Caeau Cymru
gan Hywel Wyn Owen

*Mae'n holl bwysig deffro ymwybyddiaeth o'u cynefin mewn plant os ydym ni am ddiogelu cyfoeth y gorffennol. Mae hen enwau lleol dan fygythiad oherwydd amryw o resymau, megis adeiladu a lledu ffyrdd, adeiladu stadau o dai ac unedau diwydiannol a mewnfudiad i gefn gwlad cynifer o bobl nad oes ganddynt unrhyw wybodaeth na diddordeb yn eu cynefin newydd.*

Nid oes fawr ddim yn dweud mwy am gefn gwlad, ei bywyd a'i phobl, nag enwau caeau – cawn wybodaeth am berchennog neu denant **(perchnogaeth,)** lle mae'r cae **(lleoliad,)** nodweddion amlwg y cae **(topograffi)** a'i ddefnydd **(amaethyddiaeth.)**

## Perchnogaeth

- enw'r perchennog neu denant:
**Cae Ifan, Cae Malach, Ffridd Bulkeley, Cae Llan**

- ei waith:
**Cae Gof, Cae Sadler, Cae Person**
*(Gan fod cymaint o bobl â'r un enw, ac hefyd cymaint o bobl fel chwarelwyr neu fân grefftwyr yn ffermio ychydig gaeau i ychwanegu at incwm y teulu, roedd defnyddio galwedigaeth y tenant neu'r perchennog yn osgoi dryswch.)*

- ei gartref:
**Cae Hafod Ucha, Cae Tyddyn Charles, Dôl Plas**

## Lleoliad

Fel rheol mae'n cysylltu cae gydag adeilad neu fan arbennig arall:
**Cae Cefn Tŷ, Waun Defeity, Cae Tan Fynwent,**
**Cae Pella, Banc Top**

## Topograffi

Gall y nodweddion dan sylw fod yn rhai naturiol:
**Cae Gors, Cae Ffynnon, Cae Bryn Bach, Cae Cerrig**

neu o waith llaw dyn:
**Clwt Chwarel, Cae'r Odyn, Dôl Sarn, Cae Sgubor**

Y mae'r maint a'r siap yn aml yn cael sylw:
**Cae Bach, Ffridd Fawr, Llain Hir, Cae Main, Cae Crwn**

a lliw y pridd neu'r tyfiant hefyd:
**Waun Felen, Cae Du, Cae Glas, Tyle Brith**

## Amaethyddiaeth

Prif reswm bodolaeth cae yw er mwyn tyfu cnydau:
**Cae Haidd, Bryn Gwenith, Cefn Gwair**

ac er mwyn magu anifeiliaid:
**Cae Moch, Twyn Merlod, Cae'r Fuches**

Yr oedd rhai caeau'n dipyn o gur pen i'r ffermwr:
**Cae Garw, Clwt Rhedyn, Cae Drain**

a rhai'n cael eu defnyddio i ddibenion eraill:
**Cae Calch, Cae Marl, Cae Brics**

---

## YMARFERION YSTAFELL DDOSBARTH

1. Mae Map 1 yn dangos y caeau sydd gan ddyn o'r enw Dafydd Morgan.
***Ceisiwch ddyfalu'r rheswm dros bob enw***.

2. Mae Map 2 yn dangos caeau William Morgan, sef brawd Dafydd.
Ar y map, mae gan bob cae ***rif,*** ond ***dim*** enw.
Yng ngholofnau 1,3 a 5 y tabl isod, ceir rhestr o enwau caeau William.

***[a] Penderfynwch pa un o'r enwau sydd yn perthyn i ba rif, a rhowch rif y cae hwnnw gyferbyn â'r enw priodol.***

***[b] Cymharwch eich hatebion â rhai gweddill y dosbarth gan drafod y rhesymau dros eich dewis.***

| Enw'r Cae | Rhif | Enw'r Cae | Rhif | Enw'r Cae | Rhif |
|---|---|---|---|---|---|
| Cae Bach | | Cae Hir | | Cae'r Person | |
| Cae Cefn | | Cae Mawr | | Cae'r Ysgol | |
| Cae Chwarel | | Cae Pella | | Cae Tan Fynwent | |
| Cae Felin Isaf | | Cae'r Eglwys | | Cae Tros Lôn | |
| Cae Henblas | | Cae'r Felin | | Cae Ysgubor | |

## Map 1

Cae'r Bont
Cae Yd
Cae Pella
Cae Tri-Chornel
Cae Bach
Cae Pwll
Cae Llaid
Cae Porfa
Cae Canol
Cae William
Cae Mawr
Cae Bryn
Cae Tyrpeg
Cae Dan Ty
Cae Ffingar
Cae Stabal
Cae Crwn
Cae Lôn
Cae Gat
Cae Croes
Cae Ffynnon
Cae'r Dderwen
Hengae
Cae Tywod
Cae Newydd
Cae Coed

## Map 2


1
2
3
4
5
6
7
8
9
10
11
12
13
14
15

3. ***Lluniwch fap eich hun o fferm ddychmygol*** gan roi enwau i bob un o'r caeau. Cewch awgrymu mwy nag un enw, os mynnwch, ond rhaid nodi'r rheswm dros bob enw.

## Ymchwil yn y Maes

*Dyma enghreifftiau o gwestiynau y dylech fod yn barod i'w gofyn:*

| **Cae Hwyiaid** *(ond heb lyn o unrhyw fath ynddo)* |
| --- |
| Ble fyddai'r pwllyn wedi bod?<br>Pa bryd y sychwyd y pwll i gael gwell tir pori? |

| **Un cae lle mae hen fap yn dangos tri** |
| --- |
| Pa bryd y chwalwyd y gwrychoedd neu'r cloddiau?<br>Oes sôn am enwau'r tri chae unigol? |

| **Cae Brics** |
| --- |
| Oes sôn am grasu brics yn yr ardal?<br>Oes enwau neu dystiolaeth arall yn sôn am weithio clai yn y cyffiniau? |

| **Cae Cerrig** |
| --- |
| Ai cae caregog ac felly anodd ei drin oedd hwn?<br>*(Archwiliwch y pridd ac edrychwch am bentyrrau o gerrig ar ei ymylon.)*<br><br>A fyddai'r trigolion lleol yn cloddio yno am gerrig i godi waliau?<br>*(Oes arwyddion o chwarela a chreigiau yn agos at yr wyneb?)* |

| **Cae Sadlar** |
| --- |
| A glywsoch chi sôn am rywun o'r pentref yn gwneud cyfrwyau ac offer lledr arall i geffylau? |

## YMCHWIL HANESYDDOL BELLACH

*Y mae rhai caeau'n bodoli ers 600 mlynedd. Rhwng 1750 ac 1830, cafodd llawer o gaeau eu creu allan o dir comin o ganlyniad i'r Deddfau Cau Tir. Y mae hen fapiau a dogfennau e.e. llyfrau cownt stadau a mapiau degwm (rhent oedd yn ddyledus i'r Eglwys) ar gael trwy gysylltu â Swyddog Addysg yr archifdy lleol.*

***Pwrpas y Llyfr Degwm oedd dangos***

- *enw pob perchennog*
- *enw pob tenant*
- *enw pob cae*
- *maint pob cae*
- *cynnyrch pob cae*
- *rhent pob cae (i'w dalu i gynnal gwaith yr Eglwys yn y plwyf)*

*Fel arfer, mae'r Mapiau Cau Tir yn dangos lleoliad, maint ac enw pob cae.*

Gyda'r wybodaeth hon, gallwch fynd allan i holi ffermwyr a thrigolion eraill. Y mae'n ddiddorol gweld faint o'r wybodaeth sydd yn dal yn cael ei ddefnyddio 200 mlynedd yn ddiweddarach.

**Cofiwch:**

a] Mynnwch ganiatâd rhieni neu athrawon cyn mynd o gwmpas i holi.
Y mae mynd fesul dau neu dri yn syniad da hefyd.

b] Efallai y bydd gan bobl hŷn yr ardal gof am enw llwybr neu furddun nad oes neb heddiw'n rhoi fawr o sylw iddo.

c] Gwrandewch yn amyneddgar a chofiwch fanylion y mân siarad fel
*"Meri Jôs oedd yn byw'n fanna – rêl hen g'nawas oedd hi 'fyd.*
*Gof oedd ei thad hi – roedd 'na dri gof yn y plwy' 'stalwm a'r tri'n frodyr."*
neu
*"Cae'r Pannwr? Wel, Tomos Puw o'dd yn byw yn y Pandy a glywes i Wncwl Dai'n gweud 'i fod e'n cadw caseg fach yn y ca' 'na."*